
# LLESIANT POBL IFANC

# RHIENI IFANC

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

MEDI 2019



# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Ynglŷn a'r adroddiad hwn | 3 |
| Darlun o rieni ifanc | 5 |
| Beth mae Llywodraeth Cymru yn ceisio'i gyflawni? | 7 |
| Pwy arall sy'n chwarae rhan | 9 |
| Faint sy'n cael ei wario? | 10 |
| Cyfleoedd i wella | 11 |



Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
Mae croeso i chi ein ffonio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru



Mae'r adroddiad yma wedi cael ei baratoi i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Yr oedd tîm astudiaethau Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Mark Jeffs, Rachel Harries, a Verity Winn o dan arweinyddiaeth Matthew Mortlock.

# YNGLŶN A'R ADRODDIAD HWN


## Ynglŷn â'n gwaith ar lesiant pobl ifanc

### Cydweithio

Rydym wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau eraill i archwilio thema gyffredin, sef 'Ieuenctid'. Cyhoeddodd yr arolygiaeth addysg, Estyn, ei hadroddiad ar **wasanaethau cymorth ieuenctid** ym mis Gorffennaf 2018. Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ei **hadolygiad o wasanaethau gofal iechyd i bobl ifanc** ym mis Mawrth 2019. Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru **ei hadroddiad ar blant a phobl ifanc** sydd wedi bod mewn gofal ym mis Mehefin 2019.

### Ein gwaith ni

Fe edrychom ni ar waith Llywodraeth Cymru i gefnogi llesiant pobl ifanc yng Nghymru. Mae llesiant yn gysyniad eang, felly rydym wedi canolbwyntio ein gwaith ar bum pwnc: digartrefedd ieuenctid; oedolion ifanc sy'n ofalwyr; rhieni ifanc; iechyd meddwl; a sgiliau a chyflogadwyedd. Rydym yn cyhoeddi saith cynnyrch yn seiliedig ar ein gwaith, gan gynnwys yr adroddiad hwn. Mae'r diagram isod yn darparu dolen i bob cynnyrch.



## Ynglŷn â'r adroddiad hwn am rieni ifanc

Fe edrychom ni ar rieni ifanc[1] am bod Llywodraeth Cymru wedi addo helpu rhieni[2] o bob oed i wneud 'blynyddoedd cynnar' bywydau eu plant mor gadarnhaol â phosibl. Gall rhieni ifanc fod ag anghenion gwahanol a gall fod arnynt angen mwy o help na rhieni hŷn.

Nid yw'r adroddiad hwn yn archwiliad cynhwysfawr o wasanaethau i rieni ifanc. Ein ffocws yw'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi sefydliadau sy'n helpu rhieni ifanc. Rydym yn rhoi ein harsylwadau yn seiliedig ar gyfweliadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Fe wnaethom hefyd adolygu strategaethau, cynlluniau, tystiolaeth ymchwil ac ystadegau Llywodraeth Cymru. Mae'r diagram isod yn darparu trosolwg o'r adroddiad hwn a gallwch ei ddefnyddio i symud i'r gwahanol adrannau sy'n egluro'r hyn a ganfuom.

### TROEDNODION

1 Mae gwahanol ddiffiniadau o rieni ifanc, ond rydym wedi edrych yn fras ar bobl ifanc 16 i 24 oed er mwyn bod yn gyson â'n hadroddiadau cryno eraill.

2 Wrth rieni, rydym yn golygu rhieni sy'n magu plant.

**Darlun o rieni ifanc**

Mae llai o bobl ifanc yn cael plant nag yn 2008. Mae'n debygol y bydd ar rieni ifanc angen help mewn gwahanol rannau o'u bywydau.

**Beth mae Llywodraeth Cymru yn ceisio'i gyflawni**

Y nod cyffredinol yw ehangu a gwella'r cymorth i rieni. Tanategir hyn gan ganllawiau rhianta Llywodraeth Cymru.

**Pwy arall sy'n chwarae rhan**

Gall llawer o wahanol sefydliadau gefnogi rhieni ifanc.

**Faint sy'n cael ei wario**


Nid yw'n gwbl amlwg faint sy'n cael ei wario ar gymorth rhianta ar gyfer pob oed gan gynnwys rhieni ifanc.

**Cyfleoedd i wella dull Llywodraeth Cymru**


Mae Llywodraeth Cymru wedi helpu sefydliadau i gydweithio ond gallai fod yn well am rannu gwybodaeth ar draws ei hadrannau ei hun. Mae angen iddi wneud mwy i ddeall pa wahaniaeth y mae ei chynlluniau'n ei wneud.

# DARLUN O RIENI IFANC

Mae'r diagram isod yn crynhoi ymchwil i rieni ifanc o **Ganllawiau Rhianta** Llywodraeth Cymru:



Maent yn fwy tebygol o brofi anawsterau yn yr ysgol, y coleg neu'r brifysgol.



Maent yn fwy tebygol o:

- fod â hunan-fri isel – ond mae rhai rhieni ifanc yn canfod bod cael baban yn eu helpu i deimlo'n fwy hyderus;
- bod ag iselder gan gynnwys iselder ôl-enedigol.



Maent yn fwy tebygol o fod wedi bod mewn gofal neu fod mewn gofal o hyd.


Mae rhieni ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn llai tebygol o gael help gan oedolyn y maent yn ymddiried ynddynt ac yn dibynnu arnynt. Efallai y byddant hefyd yn ei chael yn anodd ymddiried mewn gweithwyr proffesiynol am eu bod wedi cael eu gadael i lawr yn y gorffennol. Mae rhai pobl sydd wedi bod mewn gofal yn canfod bod cael baban yn rhoi ymdeimlad o bwrpas iddynt yn eu bywydau.



Mae rhai pobl yn poeni am gael eu beirniadu am fod yn rhiant ifanc. Efallai na fydd rhieni ifanc yn dymuno gofyn am help am bod arnynt eisiau profi eu bod yn rhiant da.



Mae tadau ifanc weithiau'n ei chael yn anodd chwarae rhan ym mywydau eu plant. Efallai fod ganddynt broblemau gyda thai gwael neu incwm isel, neu efallai fod teulu'r fam yn ei gwneud yn anodd iddynt chwarae rhan. Mae rhai tadau ifanc yn teimlo'u bod yn cael eu hanwybyddu gan wasanaethau sy'n cefnogi rhieni a phlant.




Mae plant i rieni ifanc yn fwy tebygol o:

- Gael eu geni'n gynnar (cyn pryd)
- Mynd i'r ysbyty fel achos brys pan ydynt yn blant
- Marw yn blentyn
- Profi anawsterau yn yr ysgol
- Dod yn rhieni ifanc eu hunain

Mae cyfraddau ffrwythlondeb oedran-benodol ar gyfer menywod o dan 25 yng Nghymru wedi gostwng dros y pedair blynedd ddiwethaf[3]. **Cliciwn yma ar gyfer fersiwn ryngweithiol o'r data**. Ceir rhagor o wybodaeth am bobl ifanc yn **ein hofferyn data**.

## Cyfraddau ffrwythlondeb




Ffynhonnell: Genedigaethau byw a marwolaethau yng Nghymru a Lloegr, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

TROEDNODION

3 Cyfrifir cyfraddau ffrwythlondeb oedran-benodol trwy rannu nifer y genedigaethau byw i famau ym mhob grŵp oedran â nifer y menywod o'r oedran hwnnw yn y boblogaeth. Mynegir cyfraddau am bob 1,000 o fenywod yn y grŵp oedran. Gall data yn yr adroddiad hwn fod ychydig yn wahanol i'n hofferyn data ni sy'n cynnwys diweddariadau data byw.

# BETH MAE LLYWODRAETH CYMRU YN CEISIO'I GYFLAWNI?

Mae'r **strategaeth genedlaethol** yn dweud beth fydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu rhieni o bob oed trwy gydol tymor y Cynulliad, gan gynnwys:

- Cymorth rhianta mewn canolfannau dysgu cymunedol;
- Rhwydwaith cydlynol, estynedig o gymorth rhianta, gan ddwyn ynghyd raglenni cymorth i deuluoedd; a
- 30 awr o addysg a gofal plant am ddim i rieni i blant tair a phedair blwydd oed sy'n gweithio.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gefnogi rhieni mewn nifer o ffyrdd. Gall yr holl deuluoedd gael mynediad at wasanaethau cyffredinol a ddarperir gan fydwragedd, ymwelwyr iechyd, meddygon teulu a **Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd**. Mae gweithwyr proffesiynol eraill yn cefnogi rhieni mewn gwahanol gyfnodau ym mywyd plentyn gan ddibynnu ar anghenion pob teulu.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhieni trwy ei rhaglenni **Dechrau'n Deg** a **Teuluoedd yn Gyntaf** hefyd. Mae Dechrau'n Deg yn cefnogi teuluoedd â phlant dan bedair oed sy'n byw mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn rhoi cymorth rhianta, gwasanaeth dwys gan ymwelwyr iechyd, gofal plant rhan-amser i blant dwy i dair oed, a chymorth gyda iaith, lleferydd a chyfathrebu. Mae cynghorau'n defnyddio cyllid Teuluoedd yn Gyntaf i gomisiynu prosiectau i gefnogi teuluoedd yn seiliedig ar angen lleol. Mae rhai prosiectau'n cefnogi rhieni ifanc.



Mae **canllawiau rhianta** Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor i sefydliadau a gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi rhieni Dywed y canllawiau y gall fod ar rai rhieni, gan gynnwys rhieni ifanc, angen help ychwanegol a gwahanol fathau o help. Maent yn annog sefydliadau i deilwra eu gwasanaethau i ddiwallu anghenion rhieni ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wneud hyn.

Mae ymgyrch Llywodraeth Cymru **Magu Plant. Rhowch Amser Iddo** yn rhoi cyngor a gwybodaeth i rieni. Mae'r ymgyrch yn hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ynghylch rhianta trwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r cyfryngau print a hysbysebion digidol, gyda gwefan a thudalen Facebook bwrpasol.

Mae **Canllawiau Ymestyn Hawliau 2002** Llywodraeth Cymru yn nodi pa gymorth y mae gan yr holl bobl ifanc hawl iddo dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Fe gomisiynodd Llywodraeth Cymru **adolygiad o'i chanllawiau** yn 2018 ond nid yw wedi penderfynu a ddylid eu diweddaru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu dogfennau eraill sy'n berthnasol i rieni ifanc, gan gynnwys:


**Gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru**


**A Strategic Vision for Maternity Services in Wales**

**Delivering Quality Information for Families Together**

**An overview of the Healthy Child Wales Programme**


**Datganiad Ysgrifenedig ar Plant yn Gyntaf 2017**












# PWY ARALL SY'N CHWARAE RHAN?

## Pwy arall sy'n rhan o gefnogi rhieni ifanc?


Mae GIG Cymru a chynghorau yn darparu gwybodaeth a chyngor ar gyfer rhieni ifanc. Mae rhai gweithwyr proffesiynol yn rhoi cyngor wyneb yn wyneb. Mae hyn yn cynnwys meddygon teulu, ymwelwyr iechyd, bydwragedd, athrawon, gweithwyr gofal plant proffesiynol, a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd.

Mae Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, ysgolion, ymwelwyr iechyd, bydwragedd, gweithwyr ieuenctid a sefydliadau'r trydydd sector yn rhoi cymorth uniongyrchol i rieni ifanc. Bydd rhai teuluoedd yn cael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cyfiawnder hefyd gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau.

# FAINT SY'N CAEL EI WARIO?

Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n buddsoddi adnoddau sylweddol yn cefnogi rhieni. Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg ar ei phen ei hun wedi cyllido gwerth ychydig o dan £10 miliwn o gymorth rhianta bob blwyddyn ers 2013-14 (gweler y siart gyferbyn).

**Gwariant ar Gymorth Rhianta Dechrau'n Deg**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi talu am gymorth rhianta trwy ei rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf hefyd. Mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth am wariant Teuluoedd yn Gyntaf ond nid yw'n mynd ati'n rheolaidd i ddadansoddi gwariant y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ar gymorth rhianta.

Roedd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer ei ymgyrch Magu Plant. Rhowch Amser Iddo yn 2018-19 yn £340,000.

Byddai'n anodd i Lywodraeth Cymru gyfrifo faint sy'n cael ei wario ar gymorth rhianta ar y cyfan am bod cymorth yn cael ei ddarparu gan nifer o sefydliadau mewn gwahanol ffyrdd.

O 2019-20, bydd arian ar gyfer Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei gyfuno ag arian ar gyfer pethau eraill gan gynnwys gofal plant a chwarae mewn Grant Plant a Chymunedau newydd.

# CYFLEOEDD I WELLA

## Cyfleoedd i wella dull Llywodraeth Cymru

### Adnabod rhieni ifanc a deall eu hanghenion

Mae canllawiau rhianta Llywodraeth Cymru yn disgrifio rhai o'r heriau hyn y mae gwahanol grwpiau o rieni'n eu hwynebu ond nid yw'r wybodaeth yn ymwneud yn benodol â rhieni yng Nghymru. Mae gan rai rhieni ifanc anghenion tebyg i rieni dros 25 oed. Mae rhai'n wynebu heriau gwahanol y mae arnynt angen help i'w goresgyn.

Gallai Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach wneud mwy i ddeall yr help y mae ar rieni ifanc yng Nghymru ei angen, a'r ffordd orau o roi'r help hwnnw. Gallai Llywodraeth Cymru weithio gyda chynghorau a byrddau iechyd i wella'r wybodaeth sydd ganddynt am rieni ag anghenion penodol. Canfu gwerthusiadau o'r rhaglen **Teuluoedd yn Gyntaf** a **Chymorth Rhianta ar gyfer Dechrau'n Deg** fod yr asesiadau o anghenion lleol y mae sefydliadau'n eu cyflwyno gyda'u ceisiadau am gyllid yn amrywio o ran eu hansawdd ac i ba raddau y maent yn goleuo cynlluniau lleol. Gallai Llywodraeth Cymru wneud defnydd gwell o'r data sydd ganddi'n barod, gan gynnwys dadansoddi data ar agweddau rhieni yn ei Harolwg Cenedlaethol yn ôl oedran.

Mae rhai sefydliadau'n ei chael yn anodd adnabod rhieni ifanc. Mae gweithwyr proffesiynol yn rhannu gwybodaeth lle mae sefydliadau sy'n cefnogi rhieni'n rhannu adeilad neu'n cytuno ar brosesau atgyfeirio lleol. Ond dywedodd ymarferwyr rhianta wrthym ei bod yn arbennig o anodd adnabod rhieni ifanc mewn ardaloedd heb brosesau atgyfeirio.

### Deall pa wasanaethau sy'n bodoli a'r bylchau



Ar gyfer Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf, rhaid i sefydliadau lleol gynllunio gwasanaethau fel eu bod yn diwallu'r angen lleol ac nad ydynt yn gorgyffwrdd. Mae gan Lywodraeth Cymru wybodaeth am rai prosiectau rhianta yng Nghymru ond nid yw'n deall cymorth rhianta yn ei gyfanrwydd ledled Cymru na beth sy'n cael ei wneud i helpu rhieni ifanc. Nid yw'n gwybod a yw gwasanaethau yn yr ardaloedd lle ceir yr angen mwyaf. Nid yw'n gwybod ble a pham y mae bylchau'n bodoli, na pha effaith y mae hyn yn ei chael ar wasanaethau eraill neu bobl ifanc eu hunain.

### Llunio polisïau mewn modd cydgysylltiedig



Gallai rhannau eraill o Lywodraeth Cymru ddysgu o'r ffordd y rhoddodd ei swyddogion anogaeth ar gyfer cydweithio trwy Teuluoedd yn Gyntaf. Dywedodd y gwerthusiad o Teuluoedd yn Gyntaf fod y rhaglen wedi helpu i ailddylunio systemau lleol ac ysgogi diwylliant o gydweithio. Mae newidiadau Llywodraeth Cymru i'r modd y mae'n cyllido Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg wedi'u bwriadu i roi mwy o hyblygrwydd i gynghorau weithio gyda phartneriaid ar brosiectau lleol.

Cododd sefydliadau bryderon am gydweithio ar draws adrannau Llywodraeth Cymru. Roedd rhai'n teimlo dryswch ynghylch y gydberthynas rhwng deddfau a pholisïau perthnasol.

Nid yw negeseuon allweddol o'r Canllawiau Rhianta'n cael eu hadlewyrchu mewn rhannau eraill o ddull Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae'n nodi bod rhieni ifanc yn grŵp agored i niwed ond nid yw wedi adlewyrchu hyn yn ei hymgyrch Magu Plant. Rhowch Amser Iddo na'r wybodaeth y mae'n ei chasglu i fonitro ei rhaglenni.

Fel rhan o'i waith ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru), mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer i fapio'r cymorth rhianta presennol ledled Cymru gan gynnwys bylchau yn y ddarpariaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chanfyddiadau erbyn diwedd Medi 2019. Bydd y canfyddiadau'n cynnwys nifer y rhieni sy'n defnyddio cymorth presennol a buddsoddiad mewn cymorth rhianta yn ystod y 12 mis diwethaf.


## Dysgu o'r ddarpariaeth a'i gwella ar lawr gwlad



Mae cefnogi rhieni'n flaenoriaeth genedlaethol amlwg i Lywodraeth Cymru ond nid oes ffordd ganddi o fesur ei chynnydd ei hun nac adrodd arno. Talodd am ymchwil i adolygu'r rhaglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf ac mae'n cynnal cynhadledd flynyddol sy'n dod â staff o'r ddwy raglen ynghyd i rannu gwersi. Mae hefyd yn monitro effaith rhai prosiectau rhianta. Ond nid yw wedi edrych y tu hwnt i'r rhaglenni hyn ar bopeth arall y mae'n ei wneud i gefnogi rhieni.

Dywedodd rhai sefydliadau wrthym nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw beth i ddeall y problemau y maent yn eu cael wrth geisio helpu rhieni ifanc na sut y gall eu cefnogi. Nid yw wedi gwneud unrhyw beth i weld a yw sefydliadau'n defnyddio'i chanllawiau rhianta nac i weld a yw sefydliadau'n deall yr hyn y mae arni eisiau iddynt ei wneud.


## Penderfynu pwy sy'n gwneud beth



Nododd Llywodraeth Cymru ofynion penodol ar gyfer sefydliadau sy'n darparu Dechrau'n Deg a'i **Rhaglen Plentyn Iach Cymru**. Mae hefyd yn cydnabod bod ar gynghorau, byrddau iechyd a'u partneriaid angen yr hyblygrwydd i benderfynu pwy sy'n gwneud beth yn lleol ac felly nid yw'n nodi pwy sy'n gyfrifol am ddarparu elfennau eraill o gymorth rhianta.

Dywedodd sefydliadau sy'n gweithio gyda rhieni wrthym fod pawb yn gwybod beth maent yn ei wneud mewn ardaloedd lle mae partneriaethau a pherthnasoedd lleol yn gryf. Lle nad oes partneriaethau cryf yn bodoli, mae staff yn teimlo dryswch ynghylch pwy sy'n gwneud beth, ac nid ydynt yn gwybod ble i anfon rhieni ifanc os oes angen mathau penodol o help arnynt. Gallai cynghorau, byrddau iechyd a sefydliadau eraill wneud mwy i egluro rolau a chyfrifoldebau lleol, ond gall Llywodraeth Cymru helpu hefyd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau i rannu gwersi o ddulliau lleol o gefnogi rhieni. Trwy gael sgyrsiau gyda sefydliadau lleol am yr hyn sy'n gweithio, rydym ni'n meddwl y gallai Llywodraeth Cymru eu hannog i wneud rolau a chyfrifoldebau lleol yn fwy eglur i wella'r ffordd y maent yn gweithio gyda'i gilydd.

## Darparu arweinyddiaeth



Mae gwerthusiadau o Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn dangos bod Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n galed i daro'r cydbwysedd cywir rhwng canllawiau cenedlaethol a gadael i sefydliadau lleol benderfynu sut i ddarparu gwasanaethau. Mae arni eisiau i rieni o bob oed brofi system gydgysylltiedig o wasanaethau cyhoeddus sy'n diwallu eu hanghenion. Ond mae cydgysylltu pob rhan o'r system yn anodd ac yn galw am gydlynu i helpu sefydliadau i weithio tuag at nodau cyffredin.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cymorth rhianta'n flaenoriaeth yn ei strategaeth genedlaethol. Ond dywedodd gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda rhieni wrthym nad oeddent erioed wedi clywed am y canllawiau rhianta ac nad oeddent yn gwybod beth yw blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Rydym ni'n meddwl y gallai Llywodraeth Cymru fyfyrio mwy ynghylch ei rôl ei hun o ran cydgysylltu'r system. Gallai wneud mwy i ganfod a yw gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid yn deall beth mae'n disgwyl iddynt ei wneud a sut y dylent weithio gyda'i gilydd i gefnogi rhieni.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2019

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**